**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-963
Ein cyf/Our ref LG/02589/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

18 Tachwedd 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Hydref, ynghylch y ddeiseb sy'n galw ar archfarchnadoedd i roi bwyd dros ben i elusennau.

Mae y pandemig Covid-19 presennol wedi gweld y system gyflenwi bwyd yn dod o dan bwysau mawr, ac mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod pobl yng Nghymru sy'n hynod fregus, yn wyneb anawsterau ariannol ac angen cymorth ar fyrder.

Mae lleihau gwastraff bwyd yn parhau yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, ac rydym yn parhau i weithio gyda'r gadwyn gyflenwi i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o wastraff a bod stoc dros ben yn cael ei ail-ddosbarthu fel y bo angen.

Mae'r diwydiant cyfan wedi ymateb i'r pwysau cynyddol sy'n cael ei wynebu gan fanciau bwyd mewn sawl ffordd, trwy gymorth ariannol a chyfraniadau stoc dros ben. Mae'r gweithredoedd gwirfoddol hyn, yn enwedig yn ystod y pandemig presennol, i gael eu cymeradwyo a'u cefnogi. Mae Gweinidogion Cymru, o dan Fil Amgylchedd y DU, yn chwilio am bwerau i orfodi siopau i ail-ddosbarthu bwyd dros ben yng Nghymru, pe byddai amgylchiadau yn dangos nad oedd busnesau yn cyflawni eu cyfrifoldebau cymdeithasol.

Yn Gywir,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.